

# GŴYL Y GOLEUNI (Y Nadolig)

---

---

**Llefarydd:**

*'Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau.'*

**Llefarydd:**

*'Ynndo ef bywyd ydoedd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd. Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.'*

**Llefarydd:**

*'Yr Arglwydd yw fy ngoleuni a'm hiachawdwriaeth, rhag pwy yr ofnaf?'*

**Llefarydd:**

Ie, Gŵyl y Goleuni yw'r Nadolig. Yn ein cartrefi, rhoddwn oleuadau ar ein coeden Nadolig, a'i gosod yn y ffenestr. Yn ein pentrefi a'n trefi, rhoddir goleuadau llachar ar hyd y strydoedd, a choeden enfawr wedi ei goleuo'n lliwgar yn y sgwâr. Ers talwm, arferai pobl ar ddiwrnod Nadolig gerdded yn blygeiniol i'r eglwys i ganu carolau. Yn y dyddiau hynny, nid oedd trydan na nwy i oleuo'r eglwysi, ac felly, deuai'r addolwyr â'u canhwyllau eu hunain, a pho fwyaf o bobl a fynychai'r plygain gyda'u canhwyllau, mwyaf llachar fyddai'r goleuni.

Yn y capel hwn, mae gennym oleuni trydan, ond nid yw hynny yn ein rhwystro rhag goleuo kannwyll i ddathlu geni pen blwydd Iesu Grist. Gadewch inni wneud hynny, a chanu carol sy'n sôn am y goleuni a lewyrchodd ym Methlehem Jwdea.

**Emyn:** 451 – *O dawel ddinas Bethlehem*

**Llefarydd:**

Yn y Testament Newydd, Mathew a Luc sy'n adrodd hanes geni Iesu Grist, ac y maent yn sôn am ddyfodiad y goleuni nefol i'r byd. Dyma ddywed Mathew wrth dystio i'r digwyddiad rhyfedd hwn:

**Darlleniad:** Mathew 2: 1–12

**Llefarydd:**

Seren ddisglair yn goleuo'r awyr a welodd y doethion, ac wrth ei dilyn, fe ddaethant i Fethlehem, a chael hyd i'r baban Iesu gyda Mair ei fam. Pobl oeddynt yn chwilio yn y tywyllwch, ond chwilio a wnaethant gan edrych i fyny ar seren ddisglair. Wrth barhau i edrych arni, sylwasant, fel y dywed Mathew, ei bod yn teithio i le arbennig: *'A dyma'r seren a welsent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn.'* Cyfrinach llwyddiant y daith i'r doethion oedd iddynt gadw eu golygon ar y seren. Er hynny, bu bron iddynt syrthio i brofedigaeth un adeg ar y daith, drwy ostwng eu golygon i holi'r brenin annuwiol hwnnw, Herod. Mynegir hyn mewn englyn gan y bardd Gwilym Herber Williams:

*'Y rhain o'r Dwyrain sy'n dod – i siarad  
Am seren wrth Herod:  
Ymholi ar gamelod  
Am Un bach, y mwya'n bod!'*

Ond fel gwir ddoethion, fe ddysgodd y rhain oddi wrth eu camgymeriadau. Codasant eu golygon eilwaith at y seren, a'r tro hwn, arweiniwyd hwy yn ddiogel i Fethlehem Jwdea lle ganwyd y baban Iesu. Yn y cyswllt hwn, daw cyngor Emerson i'r cof: *'Hitch your wagon to a star, and that star must be the star of Bethlehem'*. Boed i ninnau hefyd godi ein golygon i'r nefoedd, a dyheu gyda'r bardd O. M. Lloyd:

*'O na welem ni olau – ei seren  
A phrysuro'n camau  
I Fethlem, i roi'n gemau  
O'i flaen Ef i'w lawenhau.'*

**Emyn:** 466 – *Ganol gaeaf noethlwm*

**Cyd-weddiwn:**

(a) Diolchwn i ti ein Tad am y Nadolig cyntaf, ac am lewyrchu goleuni gobaith dy ogoniant i ni yn wyneb Iesu Grist:

*‘Caed baban bach mewn preseb  
Drosom ni,  
A golau Duw’n ei wyneb  
Drosom ni.’*

Diolchwn am hanes hyfryd y doethion yn chwilio am y baban Iesu, a’r modd yr arweiniwyd hwy yn ddiogel at ei grud. Yn dy drugaredd, gweddiwn ar i ti lewyrchu dy oleuni arnom ninnau hefyd, fel y cawn ein tywys heibio i dywyllwch ein hamheuron ffôl i weld gogoniant dy Dduwdod yn y cnawd.

Yn ystod y Nadolig hwn, gwared ni rhag cael ein denu i gerdded ffyrdd drygionus, nac i ymdroi gyda rhialtwch masnachol yr ŵyl. O! Dad, dyro inni ddoethineb y doethion gynt i ddysgu oddi wrth ein camgymeriadau, ac i barhau i godi ein golygon atat ti.

*‘Dy olau di, fy Nuw,  
Yn wyneb Iesu mawr  
Yw f’unig obaith mwy  
Ar dywyll ffyrdd y llawr.’*

(b) Cydnabyddwn na allwn fel meidrolion ddeall rhyfeddod y geni ym Methlehem, ond fe gredwn iti ddod i’n byd yng nghyflawnder yr amser, ac i mewn i’n bywyd drwy wisgo ein cnawd dynol, a’n caru i’r eithaf ar groes Calfaria.

*‘Ni wyddom ni, ni allwn ddweud  
Faint oedd ei ddwyfol loes,  
Ond credu wnawn mai drosom ni  
Yr aeth efe i’r groes.’*

Gweddiwn dros bawb y Nadolig hwn sy’n amddifad o wres cariad anwyliaid, ac sy’n cael eu llethu gan unigrwydd ac anobaith. O Dad Nefol, dyro iddynt yn ystod yr ŵyl hon sicrwydd na wnei byth eu gadael

yng ngeaf eu trallod, ac y byddi yn Dduw Immanuel iddynt mewn ysbryd a gwirionedd. Clyw ein gweddiau, a derbyn ein diolch yn enw Iesu Grist. Amen.

**Emyn:** 476 – *Dos, dywed ar y mynydd*

**Llefarydd:**

Y mae Luc hefyd yn sôn am oleuni yng nghanol nos. Fel yn hanes y doethion, mae'r nos yn amlwg yn hanes y bugeiliaid hefyd, ac i ganol nos eu bywydau y daeth angylion, gan ddisgleirio golau Duw o'u hamgylch. Gwrandawn ar yr hanes.

**Darlleniad:** Luc 2: 8–20

**Llefarydd:**

*'A disgleiriodd gogoniant yr Arglwydd o'u hamgylch.'* Fe ddigwyddodd hyn ganol nos pan oedd hi dywylla'. Mae hyn yn ein hatgoffa o frawddeg y proffwyd Ezeia, *'Y bobl oedd yn rhodio mewn tywyllwch, ac mewn gwlad o gaddug dudew.'*

Mae lle i ofni ei bod yn nos arnom yn ysbrydol yng Nghymru heddiw, ac mae'n well gan lawer aros yn nhywyllwch anghrediniaeth a phechod ein hoes nag ymateb i oleuni'r Efengyl.

Ond nid felly'r bugeiliaid, ac aethant ar frys i weld yr hyn oedd wedi digwydd. Mae'n rhaid bod yr ymweliad nefol hwn wedi effeithio'n fawr ar y bugeiliaid, oherwydd nid yn aml y mae'n bosibl eu tynnu oddi wrth eu gwaith, fel yr awgryma'r bardd:

*'Fugeiliaid garw, pa gerdd a faidd  
Liw nos eich denu oddi wrth y praidd?  
Pe gwrandawech chwithau, aech mewn hoen  
I syllu ar y Dwyfol Oen.'*

Mae yn hanes y bugeiliaid neges arbennig i ninnau hefyd. Yng nghlyw'r newyddion da, boed inni gyda'r Ficer Prichard brysuero ein camau i Fethlehem.

*'Mae'r bugeiliaid wedi blaenu  
Tua Bethlem, dan lonychu,  
I gael gweld y grasol Frenin,  
Ceisiwn ninnau, bawb, eu dilyn.'*

Dywed Luc wrthym i'r bugeiliaid ddychwelyd *'gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant'*. Onid felly y dylai fod yn ein hanes ninnau hefyd? Fe ddaw'r oedfa hon i ben, ond gobeithiwn y byddwn yn parhau, ar ôl yr oedfa, i ganmol y baban Iesu a ddaeth yn Geidwad ein bywyd ac yn obaith i'n byd.

**Emyn:** 468 – *Tua Bethlem dref*

**Cyd-weddiwn:** (*gall nifer offrymu'r weddi hon*)

(a) O Dduw ein Tad, ffynhonnell y Goleuni nefol, gweddiwn dros bawb fydd yn treulio'r Nadolig hwn mewn tywyllwch a gwewyr anobaith. Erfyniwn arnat i'w cysgodi yn dyner a'u cysuro â'th gariad.

(b) Gweddiwn dros y miliynau yn ein byd sy'n fyr o'n breintiau. Yng nghanol ein digonedd, cadw ni rhag colli'r ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb tuag at bawb sy'n brin o fendithion tymhorol bywyd, a nertha ni i gyfieithu ein teimladau gorau tuag atynt yn gymwynasau da a phrydferth.

(c) Gweddiwn dros y cleifion a'r amddifaid fydd yn treulio'r Nadolig hwn mewn ysbytai a chartrefi'r henoed. O Dad, dyro iddynt sicrwydd dy gariad na wnei eu gadael, a bendith dy dangnefedd yng nghanol treialon bywyd.

(ch) Gweddiwn dros holl genhedloedd ein byd, ac yn arbennig y rhai sy dan gwmwl rhyfel a dinistr. O Dywysog tangnefedd, planna ysbryd doethineb a chymod yng nghalonau arweinwyr gwleidyddol ein dydd, gan ddod â chyfiawnder tangnefeddus i holl lywodraethau ein daear.

(d) Gweddiwn dros dy Eglwys yn ystod yr ŵyl hon. Cadw hi ar lwybr dy wirionedd, a nertha hi i gyflawni ei chenhadaeth gan gyhoeddi, *'nad*

*oes iachawdwriaeth yn neb arall, oherwydd nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roi i ddyinion, y mae i ni gael ein hachub drwyddo'.*

(dd) Gweddiwn dros ein cyfeillion a'n hanwyliaid. O Dad, yn dy drugaredd, cadw hwy rhag pob drwg, a bugeilia hwy â'th gariad. Ac arhosed bendith yr ŵyl arnom oll, fel y byddo cân o foliant i'th fab Iesu Grist yn ein calon, ac yn ein genau weddill yr oedfa hon, a hyd byth. Amen.

**Emyn:** 471 – *Suai'r gwynt, suai'r gwynt*

**Llefarydd:**

Mae ein darlleniad olaf yn yr Efengyl yn ôl Ioan. Ni chawn hanes geni Iesu Grist gan Ioan. Yn hytrach, mae'n egluro pwy yw Iesu Grist mewn gwirionedd, ac yn niwedd ei lyfr, mae'n egluro iddo gofnodi'r hanes, '*er mwyn i chwi gredu mai Iesu yw'r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i chwi trwy gredu gael bywyd yn ei enw ef*'. Gwrandawn yn awr ar dystiolaeth Ioan yn y bennod gyntaf.

**Darlleniad:** Ioan 1: 1–18

**Llefarydd:**

Mae'r bennod gyfoethog hon yn tystio fod Iesu Grist yn fwy ac yn well na phawb. Yn wir, fe â Ioan ymhellach trwy ddweud fod Iesu Grist yn unig wir Fab Duw, ac iddo ddod i'r byd i roi goleuni a bywyd i bwy bynnag sy'n credu.

Gŵr a bortreadodd Iesu Grist fel goleuni oedd Holman Hunt, yr arlunydd enwog. Yn y darlun, '*Goleuni'r Byd*', mae Crist yn sefyll y tu allan i'r drws yn curo, gyda llusern olau yn ei law. Onid yw neges y darlun yn un gysurlawn? Mae Iesu'n curo wrth ddrws calon pob un ohonom, ac os caiff dderbyniad gennym, fe dry nos ein bywyd yn ddydd.

Un o nodweddion goleuni yw ei fod yn dileu'r tywyllwch. Onid hynny a wnaeth yr Arglwydd Iesu Grist wrth ddod i'n byd? Llewyrchodd haul ei gariad lle bynnag yr âi, a thrwy angau'r Groes, fe'n sicrhodd

na all holl alluoedd y tywyllwch ddiffodd fflam ei gariad. Fe fynegir hyn yn rymus gan yr emynydd:

*'Cans llosgi wnaeth dy gariad pur bob cam,  
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam.'*

Credwn fod fflam cariad Iesu Grist yn dal i gynhesu calonnau ei ddilynwyr, ac yn eu galluogi i orchfygu holl alluoedd y tywyllwch.

### **Llefarydd:**

Mae hyn wrth gwrs, yn fraint fawr ac yn gyfrifoldeb arbennig. Plant y Goleuni yw Cristnogion, a chymdeithas y wawr yw'r Eglwys Gristnogol. Mae goleuni yn llewyrchu orau pan fo'r tywyllwch dduaf. Fe ddylai hyn fod yn gysur inni, ac yn sbardun i ni ddal ati. Meddai Paul, *'Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio. Nid ydym yn perthyn i'r nos nac i'r tywyllwch.'* Gadewch inni, felly, roi heibio weithredoedd y tywyllwch, a byw yng ngoleuni'r Efengyl gan gredu yn Iesu Grist.

*'Mi glywais lais yr Iesu'n dweud,  
"Goleuni'r byd wyf fi,  
Tro arnaf d'olwg, tyr y wawr,  
A dydd a fydd i ti."  
At Iesu deuthum, ac efe  
Fy haul a'm seren yw;  
Yng ngolau'r bywyd rhodio wnaif  
Nes dod i gartre 'Nuw.'*

Dymunwn i chwi, deuluoedd, fendith y Nadolig, bendith Gŵyl y Goleuni, a'r llawenydd o wybod fod Iesu Grist yn Oleuni'r byd, ac yn Oleuni i bwy bynnag sy'n credu ynddo Ef. Er mwyn ei enw. Amen.

**Emyn:** 447 – *Engyl glân o fro'r gogoniant*

### **Y Fendith:**

I Dad y trugareddau i gyd  
Rhown foliant, holl drigolion byd;  
Llu'r nef moliennwch, bawb ar gân,  
Y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. Amen.

## DATHLU'R NADOLIG

---

---

### **Gweddi agoriadol:**

Ein Tad nefol a sanctaidd, yn ein haddoliad, cynorthwya ni i ddisgwyl yn weddigar am fendith gŵyl y Geni, ac i fyfyrion yn ostyngedig yn neges dy Air. Bendithia ni hefyd ag ysbryd credu'r newyddion da, fel y llanwer ni â llawenydd fod Iesu Grist yn Frawd ac yn Geidwad bendigedig. Amen.

**Emyn:** 468 – *Tua Bethlem dref*

### **Llefarydd:**

*'Disgwyliaf wrth yr Arglwydd; y mae fy enaid yn disgwyl, a gobeithiaf yn ei air; y mae fy enaid yn disgwyl wrth yr Arglwydd yn fwy nag y mae'r gwylwyr am y bore.'*

*'Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.'*

*'Y mae fy enaid yn mawrygu'r Arglwydd.'*

**Disgwyl yr addewid, derbyn yr addewid, a dathlu'r addewid.** Dyma yw byrdwn y tair adnod a glywsom yn awr, a dyma y ceisiwn ei wneud yn yr oedfa hon, sef disgwyl yn eiddgar yr addewid am y Meseia, derbyn yn ddiolchgar yr addewid am y Meseia, a dathlu yn llawen fod y Meseia yn Waredwr ein bywyd.

### **Yn gyntaf, disgwyl yr addewid**

*Darfu i Moses a'r proffwydi  
Ddweud amdano cyn ei ddod.*

Do, bu disgwyl mawr am ganrifoedd yn Israel am y Meseia, ac mae'r proffwydi yn mynegi hyn yn glir iawn, fel y gwelwn, er enghraifft, yn llyfr y proffwyd Eiseia.